# Y Cynllun Pryderon ar gyfer Mynediad i Addysg Uwch

## Cyflwyniad

1 Mae'r Cynllun hwn yn rhoi cyfle i fyfyrwyr, staff a phartïon eraill dynnu sylw'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA) at bryderon am y canlynol:

- y ffordd y mae cwrs Mynediad i Addysg Uwch (AU) penodol yn cael ei ddarparu a'i reoli
- y ffordd y mae Asiantaeth Dilysu Mynediad (ADM) yn cyflawni ei chyfrifoldebau mewn perthynas â'r Diploma Mynediad i AU, neu
- y ffordd y mae ADM yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol sydd wedi eu nodi yng Nghynllun Cydnabod QAA ar gyfer Mynediad i AU.

## Pwy sy'n cael codi pryder?

2 Mae croeso i unrhyw un godi pryderon, yn cynnwys myfyrwyr, staff, arholwyr allanol, aelodau'r cyhoedd a chyrff proffesiynol, statudol neu reoliadol.

## Beth i'w wneud os byddwch eisiau rhoi canmoliaeth neu sylwadau i QAA, neu eisiau cwyno amdani

3 Nod y Cynllun Pryderon ar gyfer Mynediad i AU yw rhoi cyfle i fyfyrwyr, staff a phartïon eraill godi pryderon am y ffordd y mae cyrsiau Mynediad i AU yn cael eu darparu a'u rheoli, neu'r ffordd y mae ADM yn cyflawni ei chyfrifoldebau neu'n bodloni'r gofynion rheoleiddiol. Os byddwch eisiau rhoi canmoliaeth neu sylwadau i QAA, neu gwyno amdani, dilynwch Weithdrefn QAA ar gyfer ymdrin â Chanmoliaeth, Sylwadau a Chwynion.

## Sut allaf i godi pryder?

4 Cyn i chi roi gwybod am bryder i QAA, dylech roi gwybod am unrhyw bryder sy'n ymwneud â chwrs Mynediad i Addysg Uwch (AU) penodol i ddarparwr y cwrs yn y lle cyntaf, gan ddilyn ei weithdrefnau cyhoeddedig yntau. Os bydd y darparwr yn methu datrys y broblem yn foddhaol, yna dylai'r ADM ymchwilio'r mater. Wedi hynny, os na fydd y broblem wedi ei datrys o hyd, dylech godi'r mater gyda QAA (gwelwch Ffigur 1).

5 Yn yr un modd, dylech roi gwybod i'r ADM yn y lle cyntaf am unrhyw bryder am y ffordd y mae'r asiantaeth yn cyflawni ei chyfrifoldebau. Os bydd yr ADM yn methu datrys y broblem yn foddhaol, yna dylech godi'r mater gyda QAA (gwelwch Ffigur 1).

6 Dylech roi gwybod yn uniongyrchol i QAA am unrhyw bryderon sy'n ymwneud â'r ffordd y mae ADM yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol sydd wedi eu nodi yng Nghynllun Cydnabod QAA (gwelwch Ffigur 1).

7 I roi gwybod i QAA am bryder, dylech gwblhau ein Ffurflen Gyflwyno ac anfon copi o'r ffurflen gyflawn at AHE@qaa.ac.uk.


8 Ein hegwyddor wrth wneud ein gwaith yng Nghymru yw y byddwn yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ac yn bodloni'r Hysbysiad Cydymffurfio a roddwyd i ni mewn perthynas â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

9 Felly, byddwn yn ymdrin â phryderon yn y ffordd sydd wedi ei disgrifio yn y weithdrefn hon, p'un a ydym wedi derbyn yr hysbysiad am y pryder yn y Gymraeg neu'r Saesneg, a byddwn yn ateb yn yr iaith y cyflwynwyd yr hysbysiad ynddi, oni bai bod yr achwynydd yn nodi y byddai'n hoffi derbyn ateb yn yr iaith arall.

10 Ni all QAA ymchwilio pryderon sydd heb eu seilio'n gyfan gwbl ar honiadau sydd wedi eu profi. Felly, dylech ddarparu tystiolaeth ategol gyda'ch cyflwyniad, lle bo'n rhesymol ymarferol. Gallai hyn gynnwys gohebiaeth, papurau pwyllgorau neu adroddiadau. Efallai y gallwch gael gwybodaeth i ategu eich cyflwyniad drwy wneud cais i'r darparwr am y wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, neu drwy Gais Gwrthrych am Wybodaeth i'r darparwr neu'r ADM. Os na allwch gael gafael ar gopïau o ddogfennau yr ydych eisiau eu cynnwys yn dystiolaeth, ond y gallwch ddangos cred resymol fod y ddogfennaeth yn bodoli, esboniwch hyn yn eich cyflwyniad.

11 Os bydd y pryder yn ymwneud ag ADM sydd wedi ei seilio yng Nghymru neu Loegr, gallai QAA roi gwybod i'r Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau (Ofqual) neu Gymwysterau Cymru (fel y bo'n berthnasol) am ganlyniadau unrhyw ymchwiliad a wneir i fynd i'r afael â'r pryder (gwelwch Ffigur 1).

**Ffigur 1: Y drefn ymchwilio pryderon**



## Beth am gyfrinachedd?

12 Rydym wedi ymrwymo i ystyried pryderon gan unrhyw un, yn cynnwys gan fyfyrwyr neu staff sy'n ofni y gallai codi pryderon arwain at ryw fath o gosb gan y darparwr neu'r ADM y maent yn pryderu amdanynt.

13 Os na fyddwch yn hapus i godi eich pryderon gyda'r darparwr neu'r ADM cyn eu codi gyda ni, efallai y byddwn yn gallu cysylltu'n uniongyrchol â'r darparwr neu'r ADM a gofyn am dystiolaeth ynghylch y mater yr ydych yn pryderu amdano. Os hoffech wybod rhagor am ein dull, gan gynnwys yr hyn y gallwn ei wneud i ddiogelu eich manylion adnabod, mae croeso i chi gysylltu â ni drwy anfon e-bost at AHE@qaa.ac.uk.

## Ein proses o ymchwilio pryderon

### Sgrinio

14 Byddwn yn sgrinio pob cyflwyniad i benderfynu a yw'r pryder yn perthyn i gwmpas yr hyn y gall QAA ei ymchwilio. Bydd unrhyw bryderon sy'n amlwg y tu allan i'r cwmpas yn cael eu sgrinio allan ar y cam hwn. Os bydd pryder wedi ei sgrinio allan, byddwn yn esbonio pam.

15 Os bydd eich cyflwyniad i ni'n anghyflawn neu os nad ydych wedi darparu'r dystiolaeth ddogfennol i ategu eich pryder, efallai y byddwn yn gofyn i chi roi rhagor o wybodaeth ar y cam hwn. Os na fyddwch yn ymateb i'n cais am ragor o wybodaeth, ac os byddwn o'r farn nad oes digon o wybodaeth gennym i fwrw ymlaen ag ymchwiliad, byddwn yn sgrinio'r pryder allan.

16 P'un a fyddwn yn gallu ymchwilio ai peidio, byddwn yn rhoi gwybod i'r ADM berthnasol am y materion a godwyd, gan gymryd camau i ddiogelu eich manylion adnabod, fel y bo'n briodol. Gallem hefyd basio gwybodaeth i sefydliad arall, megis corff proffesiynol, statudol neu reoliadol (yn cynnwys Ofqual a Chymwysterau Cymru), os byddwn yn teimlo y byddai'r wybodaeth hon yn debygol o'u helpu i gyflawni eu dyletswyddau.

### Y broses ymchwilio

17 Os byddwn o'r farn bod y pryder yn perthyn i gwmpas yr hyn y gallwn ei ymchwilio, bydd naill ai ein Cyfarwyddwr Gwasanaethau Asesu a Mynediad i Addysg Uwch neu ein Rheolwr Diploma Mynediad i Addysg Uwch yn penderfynu a ddylid cychwyn ymchwiliad ai peidio. I wneud yr ymchwiliad, bydd tîm ymchwilio'n cael ei benodi a fydd yn cynnwys Swyddog QAA a hyd at ddau adolygwr fel arfer. Yn ôl polisi QAA, byddwn yn gwirio i sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau rhwng aelodau'r tîm ymchwilio a'r ADM sydd dan sylw. Byddwn yn rhoi enw pob aelod o'r tîm i'r ADM er mwyn rhoi cyfle iddi roi gwybod i ni am unrhyw wrthdaro buddiannau mewn perthynas â'r darpar adolygwyr.

18 Byddwn yn hysbysu'r ADM mewn ysgrifen ei bod o dan ymchwiliad ac yn amlinellu cwmpas yr ymchwiliad. Os byddwn angen rhagor o wybodaeth y tu hwnt i'r hyn a gyflwynwyd i ni yn rhan o'r Cynllun Pryderon, byddwn yn gwneud cais am hyn gan yr ADM.

19 Fel arfer, bydd ymchwiliad yn cynnwys cyfuniad o rai neu bob un o'r gweithgareddau a ganlyn:

- cyfarfod ymchwilio ag aelodau allweddol o'r staff a rhanddeiliaid
- adolygiad pen desg o dystiolaeth (copïau caled a/neu electronig)
- ymweliad ymchwilio i arsylwi camau gweithredu a gymerir gan yr ADM i fodloni'r meini prawf trwyddedu perthnasol a/neu amodau safonol ei chytundeb trwyddedu.

## Canlyniadau

20 Bydd y tîm ymchwilio'n llunio adroddiad yr ymchwiliad i'r ADM a fydd yn crynhoi canfyddiadau'r tîm am y canlynol:

- cydymffurfiad yr ADM â'r meini prawf trwyddedu a/neu amodau safonol ei chytundeb trwyddedu
- camau gweithredu y mae gofyn i'r ADM eu cymryd (gyda dyddiadau cwblhau)
- camau dilyniant y mae gofyn i'r ADM eu cwblhau (gyda dyddiadau cwblhau)
- sgôr risg a roddir i'r ADM.

21 Byddwn yn rhannu fersiwn drafft o'r adroddiad gyda'r ADM i roi cyfle iddi roi sylwadau ar gywirdeb ffeithiol cynnwys yr adroddiad. Lle bo'n briodol, gallai'r tîm ymchwilio newid yr adroddiad yn dibynnu ar ymateb yr ADM.

22 Unwaith y bydd yr adroddiad terfynol wedi ei gynhyrchu, caiff ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cydnabod a Thrwyddedu Mynediad i AU er mwyn iddynt hwy ystyried a chadarnhau'r canfyddiadau am gydymffurfiad, y camau gweithredu gofynnol a'r sgôr risg. Unwaith y bydd y Pwyllgor hwn wedi cymeradwyo'r adroddiad, caiff ei anfon at yr ADM.

23 Gallai'r ymchwiliad gael amrywiaeth o ganlyniadau - byddwch yn derbyn amlinelliad o'r rhain pan fyddwn ni'n cydnabod ein bod wedi derbyn eich hysbysiad am bryder.

## Amseriadau

24 Unwaith y bydd eich hysbysiad am bryder wedi ei dderbyn, bydd wedi ei gofnodi a'i gydnabod o fewn tri diwrnod gwaith ar ôl ei dderbyn.

25 Os bydd y pryder y tu allan i gylch gwaith QAA, byddwn yn rhoi gwybod i chi am hyn mewn ysgrifen, a hynny fel arfer o fewn pum diwrnod gwaith ar ôl derbyn eich hysbysiad.

26 Rydym yn ymdrechu i ymchwilio pryderon yn gyflym ac yn drwyadl. Fel arfer, bydd y broses ymchwilio wedi ei chwblhau o fewn 12 wythnos i dderbyn hysbysiad am bryder. Efallai y bydd yn rhaid ymestyn y cyfnod hwn dan rai amgylchiadau - er enghraifft, os bydd y mater yn arbennig o gymhleth, neu os bydd y gwaith o gasglu tystiolaeth wedi cymryd mwy o amser neu wedi bod yn anoddach na'r disgwyl.

27 Os byddwn yn penderfynu ymchwilio eich pryder, byddwn yn rhoi gwybodaeth am gynnydd i chi'n rheolaidd drwy roi diweddariadau ar gamau priodol yn ystod y broses ymchwilio. Os bydd y broses ymchwilio'n debygol o gymryd mwy o amser na 12 wythnos, byddwn yn rhoi gwybod am hyn i chi mewn ysgrifen.

# Preifatrwydd a diogelu data

28 Rydym yn prosesu gwybodaeth bersonol yr unigolion sy'n cyflwyno pryderon i'r Cynllun ar sail diddordeb cyfreithlon - er mwyn rheoleiddio'r Diploma Mynediad i AU a hybu a chynnal ansawdd a safonau mewn addysg uwch.

29 Pan fyddwn yn rhannu gwybodaeth am bryderon gyda chyrff eraill (fel y disgrifir uchod), ni fyddwn byth yn rhannu data personol (yn cynnwys enwau a manylion cysylltu) am yr unigolion sy'n codi'r pryderon, os ydynt eisiau aros yn ddienw. Os bydd yr unigolion eisiau aros yn ddienw, byddwn naill ai'n rhoi ffugenwau neu'n dileu eu henwau o'r manylion yr ydym yn eu rhannu, gan wneud pob ymdrech i ddiogelu manylion adnabod yr unigolyn.

30 Bydd y manylion personol a ddarperir gan unigolion sy'n cyflwyno pryderon yn cael eu storio'n ddiogel ar ein systemau mewnol, a bydd cyfyngiadau arnynt o ran caniatâd mynediad. Rydym yn cadw gwybodaeth am ymchwiliadau i bryderon am gyfnod o dair blynedd, cyn cael gwared ohoni'n ddiogel. Ar ôl cau'r achos, bydd unrhyw fanylion personol a gedwir ar ffeil yn cael eu dileu, a bydd y wybodaeth yn cael ei diogelu am weddill y cyfnod cadw, naill ai drwy roi ffugenwau i'r unigolion neu drwy ddileu eu henwau neu eu hamgryptio.

31 Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y ffordd yr ydym yn prosesu eich gwybodaeth bersonol chi, mae croeso i chi gysylltu â ni.

32 Os byddwch eisiau cwyno am y ffordd yr ydym yn prosesu eich gwybodaeth bersonol chi, dilynwch Weithdrefn QAA ar gyfer ymdrin â Chanmoliaeth, Sylwadau a Chwynion.

Cyhoeddwyd ym mis Chwefror 2024

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2024
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786
www.qaa.ac.uk